



Asesiad Effaith Cymunedol

Ysgol Llanfynydd

Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd
(Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) ar 31 Awst 2016

HYDREF 2015

Mynegai

Rhif	Adran
1	Cyflwyniad
2	Cefndir
3	Ffynonellau Gwybodaeth
4	Ysgol Llanfynydd <ul style="list-style-type: none">• Niferoedd disgyblion• Lleoliadau Cartrefi Disgyblion• Corff Llywodraethu• Cymdeithas Rhieni ac Athrawon• Darpariaeth Ychwanegol a Gofal Cofleidiol• Cyfleusterau Cymunedol
5	Cod Trefnidaeth Ysgol Ystyriaeth Ychwanegol
6	Asesiad Effaith Cymunedol
7	Crynodeb o Effaith Posibl ar y Gymuned

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â chynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016 ymlaen gan drosglwyddo'r disgyblion presennol i ysgolion eraill gerllaw yn amodol ar ddewisiadau'r rhieni.

1.2 Yn y ddogfen hon bydd y Cyngor yn:

- ystyried yr effaith a gaiff y cynigion ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol, drwy baratoi asesiad effaith cymunedol

2.0 Cefndir

2.1 Ein nod yw cael plant a phobl ifanc Sir y Fflint i ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol, awydd cryf am addysg gydol oes a'u paratoi'n dda ar gyfer byd gwaith. Caiff pob plentyn ac unigolyn ifanc eu cynorthwyo i symud ymlaen drwy'r gwahanol gyfnodau yn eu haddysg. Bydd gan bob plentyn ac unigolyn ifanc hawl i gael rhaglen ddysgu wedi'i phersonoleiddio i wneud y gorau o'i (g)alluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, mentrus, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd amcanion sefydliad yr ysgol yn darparu cyfleoedd i gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a hefyd darpariaeth ffydd.

Mae Cyngor y Sir y Fflint yn ymroddedig i barhau i godi safonau a'r prif dasgau fydd sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar gyfer gwella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol;
- bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yng nghyd-destun pwysau'r gyllideb flynyddol;
- agwedd gyson tuag at gasglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu, gan gynnwys systemau olrhain, i dargedu cymorth ac ymyraethau; ac
- ymrwymiad parhaus i ddatblygiad staff addysgu a chymorth mewn ysgolion.

2.2 Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ddiwygiedig ym mis Ionawr 2015, a ddiweddarwyd o strategaeth flaenorol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn 2010.

2.3 Mae angen y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion oherwydd fod angen i ni:

- Sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o safon uchel;
- Gwella safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion;

- Darparu'r nifer gywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir;
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgolion a seilwaith ategol anghynaliadwy;
- Cydnabod fod gwneud dim byd yn golygu y bydd y cymarebau disgyblion athrawon yn cynyddu wrth i gyllid ostwng; a
- Sicrhau ein bod yn cynyddu cyllid allanol drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

2.4 Y prif 'sbardunau' neu feini prawf ar gyfer moderneiddio sy'n tanategu'r uchod yw:

- Gwelliant addysgol
- Arweinyddiaeth gadarn mewn ysgolion
- Adeiladau addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau sy'n prinhaus

2.5 Y cynnig yw cau Ysgol Llanfynydd (ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016 gan drosglwyddo'r disgyblion i rwydwaith lleol o ysgolion yn seiliedig ar ddewisiadau'r rhieni.

2.6 Cyflwynir y cynnig ar sail meini prawf a osodwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd sydd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd – ym mis Ionawr 2015 roedd gan Ysgol Llanfynydd (CYBLD¹) 42 o ddisgyblion llawn amser ac roedd 47.5% o'r lleoedd heb eu llenwi. Ers mis Medi 2015 mae poblogaeth yr ysgol yn 34 o ddisgyblion llawn amser gyda 57.5% o leoedd heb eu llenwi.
- Meini prawf adnoddau sy'n prinhaus (h.y. mae ysgolion a gefnogir gan ddisgyblion o du allan i'r gymuned leol a/neu niferoedd bach yn y gymuned yn codi pryderon ynglŷn â'u cynaliadwyedd yn y portffolio ysgolion); i 44% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfynydd, nid honno yw eu hysgol agosaf, a
- Meini Prawf Ysgolion Bach – mae poblogaeth a chapasiti Ysgol Llanfynydd yn is na'r dynodiad cenedlaethol ar gyfer ysgol fach, hefyd nid yw niferoedd disgyblion yr ysgol yn ateb gofynion modelau ysgolion cynradd a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

3.0 Ffynonellau Gwybodaeth

3.1 Mae'r ffynonellau gwybodaeth canlynol wedi'u defnyddio at ddibenion y ddogfen hon:

¹ CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion


- Holiadur Effaith Cymunedol a ddychwelwyd gan Bennaeth Ysgol Llanfynydd (cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2015)
- Data CYBLD mis Ionawr 2015
- Gwybodaeth ystadegol a gedwir gan y Cyngor;
- Ymatebion ymgynghoriadau anffurfiol.

4.0 Ysgol Llanfynydd

- 4.1 Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 3-11 oed ym mhentref Llanfynydd. Ar hyn o bryd mae'n ysgol Categori 2 mewn perthynas â Safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru.



4.2 Dangosir lleoliad Ysgol Llanfynydd isod;



Nifer y Disgyblion

- 4.3 Gan fod y cynnig presennol yn ymwneud â darpariaeth gynradd, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen a'r ddarpariaeth addysgol yn dod i ben yn Llanfynydd, byddai'r rhieni'n chwilio am ddarpariaeth arall. Yr ysgolion eraill a nodwyd fel rhai a allai o leiaf ddarparu canlyniadau a chynnig darpariaeth gyfatebol i Ysgol Llanfynydd yw:-

Ysgol Parc y Llan yn Nhreuddyn,

Ysgol Gynradd Abermorddu,

Ysgol Estyn, Yr Hôb,

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Brymbo, Wrecsam, ac


Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Brymbo, Wrecsam

Mae Ysgol Parc y Llan Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn yr Hôb, Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam hefyd yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair ym Mrymbo, Wrecsam yn ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai rhieni ddymuno dewis darpariaeth arall yn yr ardal. Mae'r ysgolion uchod wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol.

- 4.4 Ym mis Ionawr 2015 roedd 42 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr Ysgol Llanfynydd. Ym mis Medi 2015 roedd 34 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr Ysgol Llanfynydd. Gweler niferoedd y disgyblion dros gyfnod o 5 mlynedd isod:

Niferoedd y **disgyblion llawn amser** ar y gofrestr (*Ffynhonnell: Data Blynyddol CYBLD*)
Ionawr 2011-2015

Ion 11	Ion 12	Ion 13	Ion 14	Ion 15
45	48	44	39	42



Mae nifer wirioneddol y disgyblion llawn amser ar y gofrestr ym mis Medi 2015 wedi'i wirio gydag Ysgol Llanfynydd a Thîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion Sir y Fflint, mae gan yr ysgol 34 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr.

Lleoliadau Cartrefi'r Disgyblion


- 4.5 Mae'r Cyngor yn derbyn disgyblion ar sail dewisiadau'r rhieni ac nid ar sail y dalgylch. Cyfeirir at ysgolion fel yr 'ysgol addas agosaf' sy'n cymryd i ystriaeth dewis iaith a ffydd. Mae dewis rhieni'n golygu y gall rhieni ddewis unrhyw ysgol ar gyfer eu plentyn/plant cyn belled a bo lleoedd ar gael iddynt yno.
- 4.5 Wrth gynnal yr asesiad hwn, mae'n ofynnol ystyried ysgolion eraill (gan gynnwys Ysgol Parc y Llan yn Nhrefyddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Ysgol Gynradd Bwlchwyn ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Brymbo, Wreccsam fel y darpariaethau a enwir yn y ddogfen) y gallai disgyblion presennol Ysgol Llanfynydd eu mynychu;

Ysgolion	Lleoliad	Pellter yn fras o Ysgol Llanfynydd	Math a Chategori	Categori Iaith	Capasiti Llawn Amser
Ysgol Llanfynydd, Llanfynydd, Ger Wreccsam, LL11 5HG	Llanfynydd	Amh.	Cymunedol (Categori 2)	Cyfrwng Saesneg	80
Ysgol Parc y Llan, Ffordd y Llan, Treuddyn, Yr Wyddgrug, CH7 4LN	Treuddyn	2.11 milltir	Cymunedol (Categori 1)	Cyfrwng Saesneg	106 (CYBLD Ion) 111 (Medi 2015)
Ysgol Gynradd Abermorddu, Cymau Lane, Abermorddu, LL12 9DH	Abermorddu	2.12 milltir	Cymunedol (Categori 3)	Cyfrwng Saesneg	206
Ysgol Estyn, Ffordd Penarlâg, Yr Hôb, LL12 9NL	Yr Hôb	3.05 milltir	Cymunedol (Categori 3)	Cyfrwng Saesneg	216
Ysgol Gynradd Bwlchwyn, Ffordd Brymbo, Bwlchwyn, Wreccsam, LL11 5UD	Bwlchwyn	4.11 milltir	Cymunedol (Categori 3)	Cyfrwng Saesneg	98
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Wreccsam, Ael y Bryn,	Brymbo	2.46 milltir	Gwirfoddol a Gynorthwyir (Categori 4)	Cyfrwng Saesneg	154


Brymbo, Wrecsam, LL12 5DA				
---------------------------------	--	--	--	--

Ffynhonnell Pellter: Canfyddwr Llwybrau 3.41 System Mapio Cyngor Sir y Fflint

4.7 Gweler lleoliad cartrefi disgyblion presennol Ysgol Llanfynydd (ym mis Medi 2015) ar y map isod;



- 4.8 Mae'r siart isod yn dangos lleoliad cartrefi disgyblion presennol (mis Medi 2015) Ysgol Llanfynydd. Mae'n dangos fod dros hanner disgyblion yr ysgol yn byw y tu allan i bentref Llanfynydd a phentrefi cyfagos Ffrith a Chymau.



- 4.9 **Canran y disgyblion nad ydynt yn mynychu Ysgol Llanfynydd fel eu hysgol agosaf** (Ffynhonnell: ciplun o ddisgyblion o'r system ONE, mis Medi 2015)

Ysgol	% y disgyblion sy'n byw ym mhentref Llanfynydd	% y disgyblion sy'n byw yn Llanfynydd/Ffrith/Cymau	% y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd eraill
Ysgol Llanfynydd	17.6%	55.8%	44%

Corff Llywodraethu

- 4.10 Darperir manylion y Corff Llywodraethu yn y tabl isod:

Nifer y Llywodraethwyr Awdurdod Lleol	2
Nifer y Rhieni Lywodraethwyr	3
Nifer y Llywodraethwyr Cymunedol	2
Nifer yr Athrawon Lywodraethwyr	1

Nifer y Staff Lywodraethwyr	1
Nifer y Llywodraethwyr Cymunedol	1
Nifer y Penaethiaid Lywodraethwyr	1
Cyfanswm y Llywodraethwyr	11

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

4.11 Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yn yr ysgol sy'n cyfarfod yn rheolaidd.

Darpariaeth Ychwanegol a Gofal Cofleidiol

4.12 Nid yw Ysgol Llanfynydd yn cynnig gofal cofleidiol². Mae'r Pennaeth wedi nodi yn yr asesiad effaith cymunedol fod yr ysgol wedi agor gwasanaeth cylch chwarae 'Mini Villagers Montessori' ym mis Medi 2015. Nid yw Ysgol Parc y Llan, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hôb nac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair, Brymbo, Wrecsam yn cynnig gofal cofleidiol ond mae ganddynt gysylltiadau da â chylchoedd chwarae annibynnol yn yr ardal leol. Mae Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn cynnig gofal cofleidiol sef 'Cabin Crew' ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar.

Clwb Brecwast	Oes
Clwb Ar ôl Ysgol	Oes
Clwb Gwyliau	Nac oes
Clybiau Sgiliau Iaith (Ffrangeg, TGCh, Coginio, Rygbi, Gwyddoniaeth, Garddio, Recorder)	Oes

Cyfleusterau Cymunedol

4.13 Cafodd y cyfleusterau cymunedol canlynol eu rhestru gan y Pennaeth ac o adborth mewn ymgynghoriadau anffurfiol wrth gwblhau'r asesiad effaith cymunedol.

Cyfleuster	Lleoliad
Tafarn Cross Keys	Yn y pentref
Swyddfa Bost	Yn y pentref
Eglwys Sant Mihangel	Yn y pentref
Marchogaeth i'r Anabl Clwyd	Ar gyrion y pentref
Ardal Chwarae Plant	Yng nghefn yr ysgol – defnyddir ar gyfer gweithgareddau chwaraeon yn yr ysgol gan nad oes caeau chwrae ynghlwm wrth yr ysgol

² Diffinnir gofal cofleidiol fel gofal plant a ddarperir yn yr ysgol y tu allan i oriau craidd y blynyddoedd cynnar a gynigir fel sesiynau cyn meithrin.

4.14 Cynhelir y gweithgareddau cymunedol canlynol yn ysgol Llanfynydd:-

Gweithgaredd	Amledd
Clwb Brechwast a fynychir gan ddisgyblion Ysgol Llanfynydd	Bob dydd
Grŵp babanod a phlant bach	Unwaith y mis (dechreuwyd ym mis Medi 2015)
Clwb ar ôl ysgol a fynychir gan ddisgyblion Ysgol Llanfynydd	Bob dydd
Sefydliad y Merched	Unwaith y mis
Cyfeillion Llanfynydd	Unwaith y mis
Cyfeillion digwyddiadau Llanfynydd	3 gwaith y flwyddyn
Amser Rhythm	Unwaith yr wythnos (dechreuwyd ym mis Medi 2015)
Clwb Ffilmiau Cymunedol	Unwaith yr wythnos (dechreuwyd ym mis Medi 2015)
Clwb Llyfrau Cymunedol	Unwaith yr wythnos (dechreuwyd ym mis Medi 2015)
Cyngor Cymuned	Unwaith y mis

4.15 Rhestrir cyfleusterau cymunedol a ddarperir yn y gymuned ehangach isod:

Gweithgaredd (e.e. gwersi gyda'r nos, clybiau diddordeb lleol, clwb ieuenctid ac ati)	Lleoliad	Amledd (e.e. bob wythnos, bob mis, bob blwyddyn)
Ras Hwyaidd Ffrith	Pentref Ffrith	Bob blwyddyn
Saethyddiaeth	Canolfan Gymunedol Ffrith a Llanfynydd, Ffrith	Bob wythnos
Ffotograffiaeth	Canolfan Gymunedol Ffrith a Llanfynydd, Ffrith	Bob wythnos
Dosbarth Dawns	Canolfan Gymunedol Ffrith a Llanfynydd, Ffrith	Bob wythnos
Caffi Cymunedol	Canolfan Gymunedol Ffrith a Llanfynydd, Ffrith	Bob wythnos
Cydweithfa Lysiau	Canolfan Gymunedol Ffrith a Llanfynydd, Ffrith	Bob wythnos

Noson Cwis	Tafarn Cross Keys, Pentref Llanfynydd	Bob wythnos
Noson Werin	Tafarn Cross Keys, Pentref Llanfynydd	Bob wythnos
Grŵp 'Rainbows'	Canolfan Gymunedol Cymau	Bob wythnos
Grŵp 'Brownis'	Canolfan Gymunedol Cymau	Bob wythnos
Noson Mochyn Rhost	Canolfan Gymunedol Cymau	Bob blwyddyn
Noson Cwis	Canolfan Gymunedol Cymau	Bob blwyddyn
Grŵp Gwarchod Chwarel Cymau	Canolfan Gymunedol Cymau	Bob blwyddyn

4.16 Crynhoir unrhyw sylwadau ychwanegol isod:

Mae gwybodaeth o ymgynghoriadau anffurfiol yn dangos fod gan Ysgol Llanfynydd gloc ysgol er cof am ddisgybl ac mae hefyd gardd goffa yno er cof am ddisgybl.

Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r gymuned ynglŷn â'r uchod os bydd Ysgol Llanfynydd yn cau.

5 Cod Trefniadaeth Ysgol Ystyriaethau Ychwanegol

5.1 Mae materion penodol a nodir yn y Cod y dylai Cyngor Sir y Fflint eu hystyried wrth asesu effaith y cynnig presennol ar y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys;

- P'un a fydd cyfleusterau yn y gymuned leol neu ehangach yn cael neu'n gallu cael eu gwella os bydd yr ysgol yn cau;
- Gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;
- Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio i fynychu ysgol arall;
- Sut y gellir cynorthwyo rhieni a disgyblion i ymgysylltu ag ysgolion eraill ac unrhyw gyfleusterau a gynigir;
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach i ddarpariaethau cludiant cyhoeddus pe bai'r newidiadau'n digwydd;

- Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol.

6 Asesiad Effaith Cymunedol

- 6.1 Bydd yr asesiad effaith yn ystyried yr effaith bosibl y gallai'r cynnig i gau Ysgol Llanfynydd a throsglwyddo disgyblion i ysgol gyfagos ei gael ar deuluoedd a'r gymuned leol, yn amodol ar ddewisiadau'r rhieni.

Meini prawf effaith	Sylwadau	Effaith dechreuol	Mesurau i ostwng unrhyw effaith negyddol	Effaith gweddilliol yn dilyn mesurau
Mynediad at ddarpariaeth o'r un dynodiad ffydd	<p>Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol gynradd gymunedol.</p> <p>Mae'r darpariaethau eraill cyfagos a nodwyd sef Ysgol Parc y Llan yn Nhreuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn Yr Hôb, Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair, Brymbo, Wrecsam o fewn 2-5 milltir o Ysgol Llanfynydd</p>	Niwtral	Dim effaith negyddol gan fod y ddarpariaeth arall yn darparu'r un dynodiad ffydd ar wahân i Ysgol Gynradd y Santes Fair, Brymbo, Wrecsam.	Amh.
Mynediad at ddarpariaeth o'r un cyfrwng iaith	<p>Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg Categori 2.</p> <p>Mae'r darpariaethau eraill cyfagos a nodwyd fel a ganlyn, Ysgol Parc y Llan yn Nhreuddyn (Categori 1), Ysgol Gynradd Abermorddu (Categori 3), Ysgol Estyn yn yr Hôb (Categori 3), Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam (Categori 3) ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair Brymbo Wrecsam (Categori 4). Mae gan bob ysgol rai lleoedd heb eu llenwi ar hyn o bryd ac os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu gallai pob ysgol roi lle i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o Ysgol Llanfynydd os oes lle ar gael.</p>	Niwtral	Dim effaith negyddol gan fod y ddarpariaeth arall yn darparu'r un dynodiad iaith.	Amh.
Effaith y cynnig presennol ar gymuned Llanfynydd	Os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu byddai darpariaeth addysgol gynradd yn dod i ben ym mhentref Llanfynydd.	Negyddol	<p>Nid oes cyfleusterau eraill ar gael ym mhentref Llanfynydd ar gyfer digwyddiadau cymunedol, megis neuadd bentref.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer safle ysgol pe bai'n cau. Dim ond ar ôl pennu beth fydd dyfodol yr ysgol y caiff cynlluniau eu gwneud ar gyfer yr ysgol.</p>	Niwtral

			<p>Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o grŵp cymunedol a gyfansoddwyd os gallant ddangos bod yr angen a'r gallu yno i gymryd y cyfrifoldeb o redeg y safle.</p> <p>Mae gan gymuned Llanfynydd gysylltiadau â phentref Ffrith (tua 0.8 milltir o Lanfynydd) – yn Ffrith mae neuadd bentref fach ac mae digwyddiadau sy'n cynnwys cymdeithas gymunedol Ffrith a Llanfynydd eisoes yn cael eu cynnal yno. Hefyd mae canolfan gymunedol yn Cymau (tua 1.8 milltir o Lanfynydd)</p> <p>Nodwyd fod Cymdeithas Gymunedol Ffrith a Llanfynydd yn annibynnol ar Gyngor Cymuned Llanfynydd.</p>	
Effaith ar ysgolion cyfagos	Byddai'r cynnig yn cael effaith ar Ysgol Parc y Llan yn Nhreuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn yr Hôb, Ysgol Gynradd Bwlchgwyn ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair yn amodol ar ddewis y rhieni. Mae lleoedd ar gael yn y system i ddisgyblion Ysgol Llanfynydd mewn ysgolion cyfagos. Byddai'r effaith ar ysgolion cyfagos yn isel	Niwtral	Amh.	Amh.

	<p>oherwydd y niferoedd presennol a'r niferoedd a ragolygir o leuedd heb eu llenwi yn yr ardal.</p> <p>Mae lleoedd ar gael yn Ysgol Parc y Llan, Treuddyn ac Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn yr Hôb, Ysgol Gynradd Bwlchgwyn ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes fair Brymbo, Wrecsam.</p>			
Effaith ar ddisgyblion	<p>Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgol mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rhai newidiadau i ddisgyblion.</p> <p>Os caiff y cynnig ei weithredu a bod Ysgol Llanfynydd yn cau, byddai'r disgyblion presennol yn wynebu newidiadau. Y prif newidiadau i ddisgyblion presennol Ysgol Llanfynydd fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Siwrnai newydd neu hirach i'r ysgol; • Gwisg ysgol newydd; • Athrawon a staff cymorth newydd; • Amgylchedd dysgu newydd; • Effaith ar grwpiau ffrindiau. 	Negyddol	<p>Byddai Cyngor Sir y Fflint yn cymryd pob cam ymarferol i wneud y cynnod pontio yn hawdd i bob disgybl, yn arbennig i grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed fel rhai ag Anghenion Dysgu Arbennig. Os gweithredir y cynigion byddai'r cyngor yn trefnu dyddiau pontio i ddisgyblion gael ymgylchedd yn eu hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddewis y rhieni). Byddai unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol yn cael yr un ddarpariaeth yn eu hamgylchedd dysgu newydd.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd modd cyfnewid gwisgoedd ysgol i</p>	Niwtral

			ddisgyblion yn amodol ar ddewis y rhieni.	
Effaith ar rieni a theuluoedd	<p>Mae'n bosibl y bydd trosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos yn cael effaith fwy ar rieni/gofalwyr o bentref Llanfynydd.</p> <p>Mae disgyblion Ysgol Llanfynydd yn dod o ardaloedd gwasgaredig, ac mae nifer o ddisgyblion yn dod o ardal Wrecsam.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai cau'r ysgol yn y pentref yn newid amgylchedd cymdeithasol a'r deinameg i rieni/gofalwyr ryngweithio.</p>	Negyddol	Er bo posibl i rieni a theuluoedd gael eu heffeithio. Gallai'r cynnig gael effaith positif ar rieni a theuluoedd drwy well darpariaeth addysgol a mynediad at grŵp mwy o rieni a theuluoedd sy'n rhan o gymuned ysgol fwy.	Niwtral
Effaith ar Drefniadau Teithio Dysgwyr	<p>Mae'n bosibl y bydd rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach os gweithredir y cynnig presennol.</p> <p>Os bydd y rhieni/gofalwyr sy'n byw yn Sir y Fflint yn dewis anfon eu plentyn/plant i'r ysgol briodol agosaf i'w cartref, byddai gan 17 o ddisgyblion sy'n byw yn Sir y Fflint hawl i gael cludiant ysgol am ddim. Y gost flynyddol fyddai oddeutu £16,150. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys disgyblion oedran meithrin presennol Ysgol Llanfynydd. Nid yw'r Cyngor yn cludo plant oedran meithrin fodd bynnag tybir y bydd y disgyblion hynny'n symud i'r dosbarth derbyn ym mis Medi 2015 ac y byddent yn gymwys fel disgyblion llawn amser.</p> <p>Mae nifer o'r disgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn byw yn sir Wrecsam. Byddai cymhwyster ar gyfer cludiant yn cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Caiff copi o adroddiad yr ymgynghoriad ei anfon ymlaen atynt er gwybodaeth.</p> <p>Mae'r Asesiad Effaith Cludiant ar gyfer y cynnig hwn ar gael i'w weld drwy'r ddolen ganlynol:- www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion</p>	Negyddol	<p>Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu'n unol â'r Canllaw Gweithredol Teithio i Ddysgwyr gan Lywodraeth Cymru (canllaw a adolygwyd yn 2014). Yn seiliedig ar leoliadau cartrefi presennol y disgyblion a pha mor agos ydynt at ddarpariaeth arall, byddai pob pellter teithio o fewn y canllaw.</p> <p>Mewn rhai enghreifftiau byddai'r daith o gartrefi rhai disgyblion i'r ddarpariaeth arall yn llai.</p> <p>Ni allai disgyblion ddefnyddio</p>	Niwtral

			<p>Ilwybrau cerdded yn y pentref, oherwydd lleoliad gwledig pentref Llanfynydd.</p> <p>Mae nifer fach o wasanaethau bws sy'n rhedeg i mewn ac allan o bentref Llanfynydd.</p>	
Effaith ar ddemograffeg cymunedol	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y cynnig yn cael effaith fechan ar gymuned Llanfynydd.</p> <p>Byddai colli ysgol yn effeithio ar weithgareddau cymunedol a gynhelir yn Ysgol Llanfynydd.</p> <p>Nid oes pryderon wedi'u nodi ynglŷn â cholli'r ysgol o'r gymuned mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol. Nid oes datblygiadau tai wedi'u cynllunio ar gyfer ardal Llanfynydd.</p> <p>Nodwyd fod y demograffeg tai yn newid yn ardal Abermorddu, gan fod rhywfaint o ddatblygiadau tai yn cael eu cynllunio. Nid oes disgwyl i'r datblygiadau tai yn y dyfodol gynhyrchu nifer sylweddol o ddisgyblion newydd yn yr ardal, fodd bynnag mae'r Cyngor yn credu y gallai'r rhwydwaith ysgolion lleol gynnal effeithiau posibl angenrheidiol datblygiadau tai presennol a'r dyfodol.</p>	Negyddol	<p>Byddai Cyngor Sir y Fflint yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau fod cymuned Llanfynydd yn parhau i ffynnu.</p> <p>Mynediad at gyfleusterau cymunedol eraill o safon megis cyfleusterau pentrefi cyfagos fel Canolfan Gymunedol Ffrith a Llanfynydd a hefyd Canolfan Gymunedol Cymau. Gallai'r Cyngor ystyried trosgwlyddo'r ased neu ran o'r ased i grŵp cymunedol a gyfansoddwyd os gall ddangos yr angen a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb dros redeg y safle.</p>	Niwtral

			Gellid mabwysiadu mesurau i ostwng yr effaith i sicrhau fod pentref Llanfynydd yn parhau i ffynnu drwy feithrin cysylltiadau agos rhwng y gymuned a'r ysgolion eraill.	
--	--	--	--	--

Trosolwg o'r effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

	Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith yn gyffredinol*	0	3	5

*Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fesurau y gellir ymgymryd â nhw i ostwng effaith negyddol

Trosolwg o'r effaith weddilliol ar deuluoedd a'r gymuned leol

	Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith yn gyffredinol*	0	5	0

*Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fesurau y gellir ymgymryd â nhw i ostwng effaith negyddol

7. Crynodeb a Chasgliadau'r Effaith Posibl ar y Gymuned

- 7.1 Mae'r asesiad effaith wedi nodi nifer o ardaloedd posibl lle gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar nifer fach o deuluoedd lleol ac ar y gymuned leol.
- 7.2 Byddai colli'r ysgol yn effeithio ar weithgareddau cymunedol a gynhelir a'r cyfleusterau cymunedol yn Ysgol Llanfynydd. Mae'n bosibl y byddai modd i nifer o weithgareddau a gynhelir ar hyn o bryd ar safle'r ysgol symud i leoliad arall ac o bosibl neuadd gymunedol Ffrith a Llanfynydd ym mhentref Ffrith, neu Ganolfan Gymunedol Cymau ym mhentref Cymau.
- 7.3 Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer safle'r ysgol os bydd yr ysgol yn cau. Dim ond ar ôl i ddyfodol yr ysgol gael ei bennu y bydd cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer safle'r ysgol. Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu

ran o'r ased i grŵp cymunedol a gyfansoddwyd pe bai'n gallu dangos yr angen a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb dros redeg y safle.